Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AC
Y Llywydd
Cadeirydd y Pwyllgor Busnes
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

SeneddPwyllgorBusnes@cynulliad.cymru

07 Tachwedd 2019

Annwyl Elin,

Rwy'n ysgrifennu atoch yn sgil ein trafodaeth yn gynharach heddiw ynglŷn ag amseru cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21.

Ysgrifennais atoch ar 13 Medi yn gofyn am eich barn ar y cynnig i gyhoeddi'r Gyllideb ddrafft yn gynt, sef ar 19 Tachwedd, a'r Gyllideb ddrafft ar 4 Chwefror 2020. Yn dilyn hynny, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar y newidiadau i'r amserlen ar 24 Medi.

Ers hynny, mae etholiad cyffredinol y DU wedi'i alw ac rydym yn y cyfnod cynetholiadol erbyn hyn. O ystyried yr amgylchiadau eithriadol hyn, ac yn amodol ar eich barn, rwy'n cynnig gohirio cyhoeddi cyllideb Llywodraeth Cymru tan ar ôl etholiad cyffredinol y DU. Fodd bynnag er mwyn darparu sicrwydd i'n partneriaid cyflawni a'n rhanddeiliaid cyn gynted â phosibl ar ôl etholiad cyffredinol y DU, y cynnig yw cyhoeddi'r gyllideb ddrafft ar 16 Rhagfyr. Yna bydd y Gyllideb derfynol yn cael ei chyhoeddi ar 25 Chwefror 2020, a'r ddadl ar y Gyllideb derfynol yn cael ei chynnal yn y cyfarfod llawn ar 3 Mawrth.

Er fy mod yn sylweddoli y byddai hyn yn golygu cyhoeddi'r Gyllideb ddrafft yn ystod y toriad, byddai'r Gweinidogion yn fodlon bod mor hyblyg â phosibl yr wythnos honno er mwyn gallu mynychu sesiynau craffu'r Pwyllgorau yn ôl y gofyn. Byddwn innau wedyn yn gwneud datganiad yn y cyfarfod llawn am gynigion y Gyllideb ddrafft cyn gynted ag y byddem yn dychwelyd ar ôl toriad y Nadolig, ar 7 Ionawr.

Rwy'n sylweddoli y bydd y trefniadau hyn yn effeithio ar y cyfnod craffu. Mae Rheol Sefydlog 20.5 yn darparu, dan amgylchiadau 'arferol', bod y Pwyllgor Cyllid yn cael wyth wythnos i adrodd ar gynigion amlinellol y Gyllideb a'r pwyllgorau'n cael pum wythnos i ystyried y cynigion manwl. Er mwyn cadw mor agos â phosibl at y cyfnod craffu hwn, byddai'r amserlen ddiwygiedig rwyf wedi'i hamlinellu yn caniatáu saith wythnos ar gyfer craffu ar y Gyllideb ddrafft, sef pedair wythnos pan fyddai'r Cynulliad yn eistedd a thair wythnos pan na fyddai'n eistedd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Hoffwn anfon Datganiad Ysgrifenedig at yr Aelodau cyn gynted â phosibl i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ein cynlluniau ar gyfer y Gyllideb ddrafft. Rwy'n ddiolchgar ichi am eich cefnogaeth hyd yma ac rwy'n gobeithio y bydd y trefniadau hyn yn dderbyniol, o ystyried yr amgylchiadau eithriadol yr ydym yn eu hwynebu oherwydd ffactorau allanol sydd y tu hwnt i'n rheolaeth.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir,

Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd